| Cardiff Council | Cyngor Caerdydd |
|---|---|
| **Replacement Local Development Plan Examination** | **Cynllun Datblygu Lleol Newydd Archwiliad** |
| **Hearing Session 5 – 09.30-13.00, 12 June 2026** | **Sesiwn Gwrandawiad 5 – 09.30-13.00, 12 Mehefin 2026** |
| **County Hall** | **Neuadd y Sir** |
| **Welsh Language** | **Y Gymraeg** |
| **Issue - Whether the LDP provides an effective and sufficiently ambitious framework to promote the Welsh language.** | **Mater - A yw'r CDLl yn darparu fframwaith effeithiol a digon uchelgeisiol i hyrwyddo'r Gymraeg.** |
| **1. Opening and introductions** | **1. Agor a chyflwyniadau** |
| **2. Does the LDP do enough to promote the Welsh language?** | **2. Ydy'r CDLl yn gwneud digon i hyrwyddo'r Gymraeg?** |
| 2.1. Should Policy SP15 be stronger and state that proposals which would have a significant adverse or disadvantageous effect on the viability and vitality of Welsh language and culture will not be permitted unless there are specific measures to mitigate negative impacts? | 2.1. A ddylai Polisi SP15 fod yn gryfach a datgan na fydd cynigion fyddai'n cael effaith andwyol neu o anfantais sylweddol ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn cael eu caniatáu oni bai bod mesurau penodol i liniaru'r effeithiau negyddol? |
| 2.2. How will the Council assess the robustness of Welsh language Situation Statements? | 2.2. Sut y bydd y Cyngor yn asesu cadernid Datganiadau Sefyllfa'r Gymraeg? |
| **3. Should the plan aspire to greater than 50% of new schools being Welsh medium?** | **3. A ddylai'r cynllun geisio sicrhau bod mwy na 50% o ysgolion newydd yn rhai cyfrwng Cymraeg?** |
| 3.1. The Council's Welsh in Education Strategic Plan 2022 to 2031 (WESP) states the Council's aim is for a truly bilingual Cardiff. It goes on to say *'We have made huge strides toward this vision, but we cannot rest. We still have more to do to ensure the capital of Wales is a place where Welsh is a vibrant living language that every young person has the opportunity to hear, speak and enjoy in every aspect of their lives and is recognised for its place firmly at the heart of our nation's capital.'* At paragraph 7.295 the LDP expects development to | 3.1 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2031 (CSCA) y Cyngor yn datgan mai nod y Cyngor yw Caerdydd gwirioneddol ddwyieithog. Mae'n mynd ymlaen i ddweud '*Rydym wedi cymryd camau mawr tuag at y weledigaeth hon, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae gennym ragor i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod prifddinas Cymru yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a bywiog y mae pob person ifanc yn cael cyfle i'w chlywed, ei siarad a'i mwynhau ym mhob agwedd ar eu bywydau ac yn cael ei chydnabod fel iaith sy'n agos at galon prifddinas ein cenedl.'* Ym mharagraff |

| | |
|---|---|
| contribute to meeting WESP targets by applying the principles of sustainable neighbourhoods to ensure all learners have access to Welsh medium education provision.<br><br>i. Is the aim to establish 50% of any new school provision on brownfield sites as Welsh medium sufficiently ambitious to enable the aims of WESP to be realised?<br>ii. Should the requirement for Welsh medium schools be in Policy C4 rather than its reasoned justification?<br>iii. Would 'at least' enable the Council to secure more if it were deemed necessary?<br><br>**4. Action Points** | 7.295 mae'r CDLl yn disgwyl i ddatblygiad gyfrannu at gyflawni targedau CSCA drwy gymhwyso egwyddorion cymdogaethau cynaliadwy i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>i. A yw'r nod i sefydlu 50% o unrhyw ddarpariaeth ysgol newydd ar safleoedd tir llwyd fel un cyfrwng Cymraeg yn ddigon uchelgeisiol i alluogi nodau CSCA i gael eu gwireddu?<br>ii. A ddylai'r gofyniad ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg fod ym Mholisi C4 yn hytrach na'i gyfiawnhad rhesymegol?<br>iii. A fyddai 'o leiaf' yn galluogi'r Cyngor i sicrhau mwy pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol?<br><br>**4. Camau Gweithredu** |